

Y porth o berl

*“A deuddeg perl oedd y deuddeg porth; pob porth wedi ei wneud o un perl.”
(adn. 21)*

Beth am ddarlflen Datguddiad 21:1–27 ac yna myfyrio

Os na fedrwn brynu dinasyddiaeth nefol, os na fedrwn ei hennill, os na ellir ei throsglwyddo i ni gan rieni, sut medrwn ddod yn ddinasyddion y deyrnas nefol? Mae'r darn o'n blaen heddiw yn ein gwahodd i ystyried y nefoedd fel dinas â deuddeg porth iddi.

Mae rhai'n tybied fod yr awdur yn darlunio'r nefoedd yn ddamhegol. Os yw hyn yn wir ai peidio, mae'n berffaith glir ei fod yn disgrifio lle anghyffredin o brydferth. Sylwch fod pob un o'r pyrth i'r Jerwsalem newydd wedi eu gwneud o berl.

Rwyf wedi nodi droeon yn *Bob Dydd gyda'r Iesu* fod y perl yn ganlyniad i boen enbyd. Pan fo'r wystrysen mewn perygl, efallai dan ychydig o dywod, mae'n rhyddhau hylif sydd yn caledu, ac yna'n troi yn berl. Tybiaf mai'r rheswm pam fod pyrth y Jerwsalem newydd yn cael eu gwneud o berl yw er mwyn cyfleu i ni bod ein mynedfa i'r ddinas dragwyddol yn agored i ni drwy glwyfau Crist ar y groes. Er eu bod bellach wedi eu hachau, maent yn parhau am byth yr un ffordd honno i mewn i bresenoldeb y dwyfol. A ydych tybed yn deall arwyddocâd hyn?

Yr unig ffordd i mewn i ddinas Duw yw trwy borth a wnaed o berl. Mewn geiriau eraill, mae'r rhai sydd yn dod i mewn i'r ddinas yma yn dod trwy ymddiried yng ngwaith Crist drostynt ar y groes. Ni allwch fynd dros y muriau, rhaid mynd trwy'r porth, porth a wnaed o berl. Derbyniwch hyn mewn edifeirwch. Derbyniwch yr berth a wnaed drosoch gan Iesu Grist ar y groes, ac ni fydd dim yn eich rhwystro rhag meddiannu dinasyddiaeth y deyrnas ddwyfol.

Caniatewch i mi ofyn y cwestiwn yma i chi: Os nad ydych yn ddinesydd y nefoedd, a ydych yn dymuno bod yn ddinesydd y nefoedd? Os ydych, gweddiwch y weddi yma yn awr:

O Dad, rwy'n ildio fy mywyd i ti heddiw ac yn derbyn mai dioddefaint dy Fab ar y groes yw'r unig warant y caf fynedfa i'r nefoedd. Rwy'n troi oddi wrth fy mhechod ac yn bwrw fy holl obaith arnat ti. Rwy'n gofyn hyn yn enw Iesu Grist. Amen.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Math. 13:44–46; 1 Tim. 6:19; 1 Cor. 6:20; 7:23

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y defnyddiodd Iesu y darlun o'r perl?
2. A ydych yn barod i ranu'r newyddion da am deyrnas y nefoedd gyda rhywun heddiw?